❖ NADOLIG CRIST

Darllen – Luc 2:1–21

Mae calendr traddodiadol yr Eglwys yn gorffen ei flwyddyn gyda'r Ailddyfodiad ac yn dechrau o'r newydd gyda'r Nadolig. Mae priodoldeb yn hynny oherwydd daeth Mab Duw mewn cnawd i roi cyfle inni osgoi condemniad yn Nydd Barn. Ffordd arall o edrych ar rediad y calendr yw fod yr achub yn dechrau gyda'r Ymgnawdoliad ac yn cyrraedd ei uchafbwynt yn yr Ailddyfodiad. Stori brydferth iawn yw stori'r Geni fel y mae Luc yn ei hadrodd. Mae hi'n gampwaith llenyddol. Ond y mae hi'n fwy na hynny i ni. 'Daeth duwdod mewn baban i'n byd.' Mae'r tragwyddol, y Gair a oedd gyda'r Tad erioed, wedi dod i rannu'n bywyd ni. Daeth yn un â ni ym mhopeth ond ein pechod. Rhannodd ein llawenydd, ein pryder, ein hofn. Cyfranogodd o amodau bywyd yn y cnawd, ei flinder, ei syched, ei wendid. Rhyfeddach fyth, rhannodd ein hangau ni. Y newyddion da felly yw fod y Meddyg wedi cyrraedd i wella ein clwyf, fod y Gwaredwr wedi dod i'n hachub, fod Tywysog Tangnefedd yn ein plith yn cymodi'r byd â Duw. Mae'n gwbl briodol felly fod y Nadolig yn ŵyl llawenydd.

Gweddi:
Hollalluog Dduw, datguddiaist ogoniant dy gariad a'th drugaredd yn ein Harglwydd Iesu Grist. Cynorthwya ni i ymuno â'r côr nefol i ymhyfrydu yn yr iachawdwriaeth fawr hon ac i gyhoeddi tangnefedd ar y ddaear ac ewyllys da at bob dyn. Gyda dyfodiad Iesu Grist i'n plith ni, llewyrchodd goleuni tanbaid yng nghanol ein tywyllwch. Caniatâ i ninnau yn y goleuni hwn weld goleuni. Treiddied dy oleuni i ddirgel-leoedd ein calonnau a gwasgaru pob tywyllwch ohonynt. Gweddïwn yn daer arnat i beri i oleuni Crist lewyrchu'n fwy gogoneddus ym mhob cwr o'r byd a pheri i'r drwg ddiflannu ac i gyfiawnder flodeuo. Cofiwn yn dy bresenoldeb y rheini y mae dydd Nadolig yn dwyn atgofion trist idynt. Gwna'n amlwg iddynt fod y Gwaredwr ei Hun wedi profi'r chwerwder sy'n eu blino hwy a bod ganddynt Un ar dy ddeheulaw Di a all gydymdeimlo â hwy ac ysgafnhau eu gofid. Yn dy drugaredd, llywydda dros ein Nadolig ninnau. Ynghanol dwndwr a ffalsedd Nadolig y byd arwain ein meddyliau at y Gair a wnaethpwyd yn gnawd. A chynorthwya ni i'n cysegru ein hunain o'r newydd i'r Mab bychan. Amen.
'Herfeiddiol yw'r rhyfeddod i Dduw Ei Hun yn ddyn ddod' – Gwilym Roberts.

R. Tudur Jones

℗ Cyhoeddiadau'r Gair www.ysgolsul.com